Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Pencae

Dyddiad yr arolygiad: 19/01/2026

Crynodeb

Mae Ysgol Pencae yn gymuned gynhwysol a threfnus sy’n cefnogi disgyblion i ffynnu mewn awyrgylch weithgar a hapus. Mae arweinwyr yn cydweithio’n effeithiol i gefnogi dysgu a chynnal lles y disgyblion yn eu gofal.

Mae’r disgyblion yn canolbwyntio’n dda ac mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Mae’r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cefnogaeth effeithiol gan staff ymroddgar. Er yr ystod addas o weithdrefnau i’w hyrwyddo, mae presenoldeb grwpiau o ddisgyblion yn parhau i fod yn rhy isel.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ieuengaf yr ysgol yn caniatáu iddynt ddatblygu hyder ac annibyniaeth o oedran cynnar. Maent yn gwneud dewisiadau ystyrlon ynglŷn a’u gweithgareddau, sy’n hybu eu hyder yn llwyddiannus. Mae eu dealltwriaeth o’r Gymraeg yn datblygu’n dda er bod tueddiad iddynt ymateb yn eu iaith gyntaf ar adegau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn datblygu hyder cynyddol yn eu Cymraeg ac yn siarad yn rhwydd a naturiol. Mae staff yn hybu diwylliant cryf o ddarllen, ac maent yn darparu profiadau gwerthfawr i’r disgyblion sy’n hyrwyddo eu mwynhad o ddarllen ar draws ystod o ffurfiau. Mae medrau ysgrifennu’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n briodol, ac maent yn ymateb yn fuddiol i adborth wrth wella eu gwaith. Mae medrau mathemateg a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Maent yn eu cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau byd go iawn ac yn elwa ar brofiadau dysgu diddorol. Mae’r rhan fwyaf yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol, ac yn deall pwysigrwydd cadw eu hunain yn ddiogel ar y we.

Mae’r athrawon yn darparu amrediad cyfoethog o weithgareddau a phrofiadau dysgu sy’n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Maent yn holi disgyblion yn fedrus ac yn darparu adborth defnyddiol sy’n annog disgyblion i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Er hyn, gydag ychydig o weithgareddau, mae tueddiad i or-ddefnyddio fframweithiau parod sy’n llesteirio datblygiad medrau annibynnol disgyblion.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella**

A1 Cysoni a rhannu arferion cryfaf yr addysgu ar draws yr ysgol

A2 Gwella presenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2026